Rhagfyr 2023

**I: Holl Aelodau'r Cartref sydd wedi cofrestru gyda Meddygfa Glan yr Afon**

Annwyl Glaf,

**Symud safle – Meddygfa Glan yr Afon, Blaenau Gwent**

Rwy'n falch o allu eich hysbysu bod Canolfan Iechyd a Lles newydd Bevan bellach bron â chael ei chwblhau a byddwch yn gallu cael mynediad i'ch Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol o'r safle hwn ar yr 22ain o Ionawr 2024. Fel claf/ cleifion sydd wedi cofrestru gyda'r feddygfa, nid oes rhaid i chi wneud unrhyw beth, **byddwch yn parhau i fod wedi cofrestru gyda Meddygfa Glan yr Afon.**

**Cyfeiriad newydd y practis fydd: -**

**Canolfan Iechyd a Lles Bevan**
Meddygfa Glan yr Afon
Park Row
Tredegar
NP22 3NG

**Rhif Ffôn: (01495) 360 486**

Sylwch y bydd y feddygfa'n symud ei holl offer TG a'u ffonau draw i'r safle newydd ddydd Gwener y 19eg o Ionawr 2024, felly dim ond gwasanaeth brys a fydd ar gael yn y practis ar y dyddiad hwn a byddant yn brysbennu pob claf. Os bydd angen gweld claf wyneb yn wyneb yn ystod y cyfnod hwn, byddant yn cael eu gwahodd i'r safle presennol. Bydd safle Meddygfa Glan yr Afon yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod y cyfnod hwn a bydd aelod o staff yno i gefnogi a chynghori unrhyw glaf sy'n dod i'r safle. Bydd pob presgripsiwn rheolaidd yn cael ei brosesu ym Meddygfa Glan yr Afon yn ystod y cyfnod hwn.

Bydd safle presennol Meddygfa Glan yr Afon yn cau yn barhaol ddydd Llun 22 Ionawr 2024 a bydd yr holl Wasanaethau Meddygol Cyffredinol a ddarperir ar hyn o bryd yn cael eu trosglwyddo i Ganolfan Iechyd a Lles Bevan.

Bydd Gwasanaethau Fferylliaeth Gymunedol Canolfan Iechyd Tredegar ar agor fel arfer ddydd Gwener 19 Ionawr 2024 a bydd y Gwasanaethau Fferylliaeth yn symud i'r safle newydd yng Nghanolfan Iechyd a Lles Bevan ddydd Llun yr 22ain o Ionawr 2024.

Bydd staff presennol y practis hefyd yn symud i'r adeilad newydd a byddant yn parhau i'ch cynorthwyo gyda'ch holl anghenion gofal iechyd, gan sicrhau eich bod yn gweld y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol mwyaf priodol pan fo angen. Yn ystod y cyfnod pontio, gofynnwn yn garedig i chi fod yn amyneddgar gydag aelodau'r tîm wrth iddynt ddod i arfer â gweithio yn eu lleoliad newydd.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r llythyr hwn, mae croeso i chi gysylltu â rheolwr y practis, Leanne Light, ar **01495 722 460.**

Yr eiddoch yn gywir,



Lloyd Hambridge

**Cyfarwyddwr yr Is-Adran**
**Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol**
**Aneurin Bevan University Health Board**